

**Heddlu Gwent Police**

---

**Adroddiad  
Blynyddol Safonau'r  
Gymraeg 2018-19**



# CYNNWYS

1. Rhagair
2. Cyflawniadau
3. Ein Strategaeth Gymraeg ar y Cyd
4. Cwynion
5. Swyddi a hysbysebwyd yn 2018-19
6. Hyfforddiant
7. Sgiliau Cyflogeion yn y Gymraeg
8. Monitro a Goruchwylio Cydymffurfiaeth â'r Safonau
9. Cydymffurfiaeth â Safonau Darparu Gwasanaeth
10. Cydymffurfiaeth â Safonau Llunio Polisi
11. Cydymffurfiaeth â Safonau Gweithredol
12. Heriau
13. Cysylltu â ni

**RWYF YN FALCH O GYHOEDDI'R ADRODDIAD BLYNYDDOL MONITRO SAFONAU'R GYMRAEG HWN, SY'N DANGOS Y CYNNYDD GWIRIONEDDOL MAE HEDDLU GWENT YN EI WNEUD WRTH DDATBLYGU FEL SEFYDLIAD SY'N CROESAWU AC YN ADLEWYRCHU DIWYLLIANT CYMRAEG FFYNIANNUS GWENT.**

Ers i Safonau'r Gymraeg gael eu cyhoeddi yn 2017 ar gyfer pob llu heddlu yng Nghymru, rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i nifer o'n gweithdrefnau a phrosesau busnes i sicrhau bod dinasyddion Gwent yn gallu dewis cyfathrebu â ni yn Gymraeg. Mae'n bwysig i mi bod y

dewis i gael defnyddio'r Gymraeg yn un go iawn. Rydym yn parhau i gynyddu nifer y cydweithwyr sy'n meddu ar y sgiliau i ddarparu ein holl wasanaethau yn Gymraeg, a chryfhau ein gallu cyffredinol.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod rhaid i ni weithio mewn partneriaeth gyda'r gymuned gyfan yng Ngwent er mwyn gwella ystod y gwasanaethau Cymraeg a gynigir gennym, gan gynnwys ein hysgolion cyfrwng Cymraeg, siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o bob oedran a sefydliadau Cymraeg lleol a chenedlaethol.

Rwyf yn gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am y cynnydd mae Heddlu Gwent wedi ei wneud hyd yn hyn a hoffwn estyn gwahoddiad i chi gysylltu â ni os oes gennych chi unrhyw sylwadau ar sut y gallwn barhau i wella.



**Pam Kelly**

Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent

**MAE DARPARU GWASANAETH PLISMONA DWYIEITHOG I HOLL DDINASYDDION AC YMWELWYR GWENT YN PARHAU I FOD YN FLAENORIAETH I SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GWENT A HEDDLU GWENT.**

Rwyf yn falch o gymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Monitro Safonau'r Gymraeg Heddlu Gwent, sy'n dangos ymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion nid yn unig ein cymunedau Cymraeg eu hiaith, ond ein gweithlu hefyd.

Nid yw'r gwaith o ddarparu gwasanaeth dwyieithog heb ei heriau. Trwy ymgysylltu'n barhaus gyda'n partneriaid a chymunedau, rwyf yn obeithiol y byddwn, dros amser, yn parhau i dyfu fel gweithlu dwyieithog sy'n denu ac yn croesawu swyddogion a staff newydd Cymraeg eu hiaith.



**Jeff Cuthbert**

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent

## 2 CYFLAWNIADAU

### ADOLYGIAD O ARWYDDION A LLENYDDIAETH GYMRAEG YN ADEILADAU'R HEDDLU

Rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2018 ymwelwyd â phob gorsaf ac adeilad heddlu sy'n cael eu defnyddio gan Heddlu Gwent i sicrhau bod ein holl arwyddion, posteri ac arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog.

### GWASANAETHAU DERBYNFA

Cyflwynwyd gwasanaeth derbynfa Cymraeg ym Mhencadlys Heddlu Gwent.

### RHWYDWAITH SIARADWYR A DYSGWYR CYMRAEG HEDDLU GWENT

Mae rhwydwaith o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg wedi cael ei greu. Mae aelodau'r rhwydwaith yn gwirfoddoli i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg i helpu Heddlu Gwent i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd pan fydd prinder sgiliau Cymraeg mewn adran benodol o'r sefydliad. Mae aelodau'r rhwydwaith yn cynorthwyo'r gwaith o hybu cyfleoedd recriwtio i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg hefyd.

### POLISI DEFNYDDIO'R GYMRAEG YN FEWNOL

Mae polisi i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym musnes Heddlu Gwent wedi cael ei gyhoeddi ar ein mewnwyd er mwyn i'n holl gydweithwyr fod yn ymwybodol ein bod yn annog defnydd o'r Gymraeg.

### STRATEGAETH RECRIWTIO WEDI'I THARGEDU

Crëwyd a defnyddiwyd strategaeth fanwl i dargedu siaradwyr a dysgwyr Cymraeg gyda negeseuon recriwtio. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gysylltu â phartneriaid a sefydliadau Cymraeg eraill yng Ngwent i wneud siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol o ba mor ddefnyddiol yw eu sgiliau iaith i Heddlu Gwent ac mae'n codi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o wahanol swyddi sydd o fewn ein sefydliad.

### GWEITHDREFN CWYNION

Rydym wedi adolygu a diwygio ein gweithdrefn cwynion ar gyfer y cyhoedd er mwyn dangos yn fwy amlwg sut i gofnodi cwyn am unrhyw agwedd ar ein gwasanaethau Cymraeg. Gellir gweld manylion sut i wneud cwyn ar ein gwefan.

## HYFFORDDIANT CYMRAEG PWRPASOL

Rydym wedi llunio a darparu hyfforddiant sgiliau Cymraeg i bob un o'n swyddogion ymholi mewn gorsafoedd fel eu bod yn gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg sylfaenol yn ein gorsafoedd heddlu yn awr.

## MONITRO CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU'R GYMRAEG

Rydym wedi cynnal arolwg llawn o sut mae Safonau'r Gymraeg yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro ar draws holl feysydd busnes Heddlu Gwent. O ganlyniad, mae dull newydd a chynhwysfawr o gofnodi cydymffurfiaeth a gwella gwasanaeth wedi cael ei gyflwyno. Yn ystod 2019/20 bydd pob adran yn dechrau defnyddio'r dull newydd hwn sy'n cynnwys cynlluniau gwella a dangosyddion perfformiad lleol.

## 3 EIN STRATEGAETH GYMRAEG AR Y CYD

### **Mae Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyhoeddi Strategaeth Gymraeg ar y Cyd ar gyfer y cyfnod 2017 - 2020.**

Mae'r ddogfen hon yn dangos yn glir yr addewid mae'r ddau sefydliad yn ei gwneud i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg Gwent i sicrhau mai darparu gwasanaethau o ansawdd cyfartal yn Gymraeg a Saesneg yw ein nod terfynol.

Pedwar amcan allweddol y Strategaeth ar y cyd yw:

- Ymgysylltu'n effeithiol â siaradwyr Cymraeg yn ein cymunedau er mwyn llywio'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu
- Hybu ein gwasanaethau yn y Gymraeg i'r cyhoedd

- Cynyddu'r gyfran o siaradwyr Cymraeg rydym yn ei chyflogi yn y ddau sefydliad
- Creu diwylliant yn y gweithle sy'n cydnabod gwerth cyflenwi gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Strategaeth lawn wedi cael ei chyhoeddi ar ein gwefan, [https://www.gwent.police.uk/fileadmin/Documents/Infopoint/Welsh\\_Language\\_Standards/WLS\\_Strategy\\_2017\\_Bilingual\\_Issue\\_1.pdf](https://www.gwent.police.uk/fileadmin/Documents/Infopoint/Welsh_Language_Standards/WLS_Strategy_2017_Bilingual_Issue_1.pdf).

Er mwyn galluogi cydberthnasau gwaith agosach a manteisio i'r eithaf ar arbedion, mae Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhannu swyddi'r Swyddog Polisi'r Gymraeg a'r Cyfieithydd Cymraeg.

## 4 CWYNIION

Yn ystod cyfnod yr adroddiad - 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019 - derbyniodd Heddlu Gwent ddau gŵyn am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg, dau gŵyn yn fwy na'r hyn a dderbyniwyd yng nghyfnod adroddiad 2017/18 pan na dderbyniwyd unrhyw gwynion. Rydym yn annog y cyhoedd i ddweud wrthym os ydyn nhw'n meddwl nad ydym yn bodloni ein rhwymedigaethau mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg er mwyn i ni allu parhau i wella ein darpariaeth gwasanaeth a chyfathrebu'n effeithiol.

CWYNIION A DDERBYNIWYD YN BERSONOL YM MHENCADLYS HEDDLU GWENT 2018/19				
Cyfeirnod	Disgrifiad	Adran	Statws	Dyddiad Derbyn
1819001	Gwent Now ar gael yn Saesneg yn unig	Atal ac Ymyrraeth	Datryswyd - Mae Gwent Now/ Gwent Nawr yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg yn awr	08/06/2018

YMCHWILIADAU COMISIYNYDD Y GYMRAEG A DDERBYNIWYD 2018/19				
Cyfeirnod	Disgrifiad	Adran	Statws	Dyddiad Derbyn
CSG379	Anfonwyd llythyr yn Gymraeg, ni chafwyd ateb.	Atal ac Ymyrraeth	Terfynwyd yr ymchwiliad	08/06/2018

## 5 SWYDDI A HYSBYSEBWYD YN 2018/19

Yn ystod cyfnod yr adroddiad - 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019 - hysbyswyd cyfanswm o 99 o swyddi:

Nid oedd unrhyw un o'r swyddi a hysbyswyd yn nodi bod y Gymraeg yn hanfodol.

Nid oedd unrhyw un o'r swyddi a hysbyswyd yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol.

## 6 HYFFORDDIANT

Mae Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn darparu cwrs hyfforddiant gorfodol Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Sgiliau Lefel 1 i bob cyflogai yr hyfforddiant gan Swyddog Polisi'r Gymraeg.

Darperir

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 mynychodd 861 (40.5%) o gyflogeion yr hyfforddiant hwn.

Erbyn 31 Mawrth 2019, roedd 1432 (67%) o gyflogeion wedi derbyn yr hyfforddiant. Bydd yr hyfforddiant gorfodol hwn yn parhau yn 2019/20 nes bydd pob cyflogai wedi mynychu.



Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Sgiliau Lefel 1 yn cael ei gorffori yn y rhaglen hyfforddiant sefydlu ar gyfer pob recriwt newydd.

Mae cyfleoedd ar gael i gyflogeion gofrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion mewnol a ddarperir gan Goleg Gwent. Ble y bo'n bosibl, mae cyflogeion yn mynychu yn ystod amser gwaith. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, roedd y cyrsiau canlynol yn cael eu cynnal:

Mynediad: Cofrestrodd chwe myfyriwr

Sylfaen: Cofrestrodd pedwar myfyriwr

Uwch: Cofrestrodd pum myfyriwr

Mynychodd pump o gydweithwyr gwrs preswyl sgiliau uwch yn Nant Gwrtheyrn.

## 7 MONITRO A GORUCHWYLIO CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

SGILIAU CYFLOGEION YN Y GYMRAEG			
LEFEL	NIFER CYFLOGEION		
	2016/17	2017/18	2018/19
1	55	763	1598
2	16	35	39
3	9	20	24
4	15	18	34
5	13	820	22
CYFANSWM	93	7	1717
CYFANSWM CYFLOGEION	1914	2054	2138

Diffiniadau Lluoedd Heddlu Cymru o Lefel Sgiliau Cymraeg (sgiliau llafar yn unig):

Lefel 1: Gallu dweud enwau lleoedd, enwau personol, gallu cyfarch yn briodol yn bersonol neu ar y ffon, gallu dechrau a therfynu cyfarfodydd yn ddwyieithog

Lefel 2: Gallu deall hanfod sgwrs a chyfleu gwybodaeth syml, gallu ymateb i geisiadau syml, gallu deall ceisiadau am gymorth, gallu defnyddio Cymraeg i drosglwyddo galwadau ffôn, gallu cyflwyno ei hun ac eraill

Lefel 3: Gallu cymryd a throsglwyddo negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw yn ystod diwrnod gwaith, gallu sgwrsio'n rhannol yn Gymraeg ond yn troi at y Saesneg mewn trafodaethau ac i roi gwybodaeth fanwl, gallu disgrifio pobl a lleoliadau, gallu ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, gallu cymryd manylion neu nodiadau o wrando ar sgwrs Gymraeg

Lefel 4: Gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd o fewn ei faes gwaith ei hun, gallu dadlau achos o blaid neu yn erbyn syniad, gallu sgwrsio yn Gymraeg yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd ond yn troi at y Saesneg wrth ddefnyddio terminoleg plismona neu dechnegol, gallu ymdrin ag ymholiadau'n effeithiol, gallu deall gwahanol dafodieithoedd, gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau yn Gymraeg, gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg.

Lefel 5: Gallu cyfweld ag ymgeiswyr am swyddi lle mae angen gallu siarad Cymraeg ac asesu eu haddasrwydd, gallu ymdrin yn effeithiol ag ymholiadau cymhleth neu ymdrin â gwrthdaro yn Gymraeg, gallu cyfweld neu holi yn ystod ymchwiliad, gallu ymdrin ag ymholiadau cymhleth neu sensitif, cwynion a chwestiynau ymosodol yn ei faes arbenigol ei hun, gallu gwneud cyflwyniadau yn Gymraeg

# 8 MONITRO A GORUCHWYLIO CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

**Y Dirprwy Brif Gwnstabl sy'n gyfrifol am fonitro a gwerthuso cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg Heddlu Gwent, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am graffu.**

Mae gan Heddlu Gwent system gadarn o gyfarfodydd a byrddau rheolaidd sy'n monitro sut rydym yn bodloni ein holl ofynion cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau plismona o'r ansawdd gorau posibl i bobl Gwent.

I'n galluogi ni i fonitro sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ym mhob maes o fusnes plismona, rydym yn cynnal cyfarfodydd y Gymraeg bob tri mis ac mae adroddiadau o'r cyfarfodydd hynny'n cael eu cyflwyno ar gyfer y lefel nesaf o graffu mewn cyfarfod ar lefel uwch sy'n cael ei adnabod fel y Bwrdd Pobl ac Amrywiaeth.

Mae llawer o uwch-swyddogion heddlu a staff yn mynychu'r cyfarfodydd bwrdd hyn er mwyn gallu mynd â gwybodaeth am faterion Cymraeg yn ôl at eu timau eu hunain, yn ogystal â chynorthwyo'r gwaith o ddatrys problemau os bydd anawsterau neu gwestiynau'n codi.

Caiff unrhyw faterion arwyddocaol eu codi wedyn yng nghyfarfodydd y Tîm Uwch Swyddogion, a dyma lefel uchaf y cyfarfod monitro a llywodraethu a gynhelir yn fewnol gan Heddlu Gwent.

**Bydd ein fframwaith newydd ar gyfer monitro Safonau'r Gymraeg, a luniwyd yn fewnol, yn cael ei gyflwyno yn 2019/20. Mae'r fframwaith yn cynnwys cynlluniau gweithredu pwrpasol i bob adran ynghyd â dangosyddion perfformiad lleol, a bydd yn darparu tystiolaeth glir ynghylch sut mae Heddlu Gwent yn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg.**

Bydd hefyd yn canfod unrhyw arfer da ac unrhyw feysydd sydd angen eu gwella.

Bydd o leiaf un cynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mynychu Cyfarfod y Gymraeg a chyfarfod y Bwrdd Pobl ac Amrywiaeth ac weithiau bydd cynrychiolydd o Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi'n mynychu i ddarparu craffu ychwanegol.



# 9 CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU DARPARU GWASANAETH

## A) CYFATHREBU Â'R CYHOEDD

Mae canllawiau ar gyfer staff wedi cael eu cyhoeddi ar fewnwyd Heddlu Gwent "Y Bît/The Beat".

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio gofynion y Safonau Darparu Gwasanaeth yn glir ac yn syml. Mae staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r canllawiau a sut i'w defnyddio yn ystod y sesiwn hyfforddiant gorfodol Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Sgiliau Lefel 1.

## C) GWEFANNAU A'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae gwefan Heddlu Gwent yn cynnwys rhagdudalen i annog siaradwyr Cymraeg i ddewis iaith. Mae Heddlu Gwent hefyd wedi sefydlu cyfrifon Facebook a Twitter cyfrwng Cymraeg er mwyn darparu presenoldeb llawn a chyfartal ar gyfer ein cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae gan dudalen Facebook cyfrwng Cymraeg Heddlu Gwent tua 265 o ddilynwyr, 43% yn fwy na'r llynedd, ac mae gan ein cyfrif Twitter 457 o ddilynwyr, 21% yn fwy na'r llynedd.

## D) CYRSIAU ADDYSGOL

Mae gan Heddlu Gwent Swyddog Cymunedol Ysgolion penodol sy'n rhoi darpariaeth addysgol Cymraeg i ddisgyblion ysgol ar draws ardal Gwent. Ymysg y pynciau sy'n cael eu trafod mae camdefnyddio cyffuriau a sylweddau a diogelu.

Mae'r sesiynau a ddarperir yn cael eu cefnogi gan wefan ddwyieithog - [www.schoolbeat.org](http://www.schoolbeat.org) sy'n cynnwys gwybodaeth a chanllawiau pellach i athrawon, disgyblion a rhieni.

## B) RECRIWTIO

Trwy weithgareddau recreiwio wedi'u targedu, rydym wedi recreiwio siaradwr Cymraeg arall i ystafell gyfathrebu'r llw lle mae galwadau 999 a 101 yn cael eu derbyn. Mae hyn yn mynd â nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn ystafell gyfathrebu'r llw i bedwar. Yn ystod 2018/19, gwnaethom ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio asiantaethau trydydd parti i'n cynorthwyo i ymdrin â galwadau yn Gymraeg, fodd bynnag, oherwydd goblygiadau cost ac anghysondeb rhwng systemau trin galwadau, penderfynwyd datblygu'r gweithgareddau recreiwio siaradwyr Cymraeg wedi'u targedu fel y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu gwasanaeth cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## CH) CAFFAEL

Nid oes unrhyw geisiadau neu gontractau wedi cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac ni dderbyniwyd unrhyw rai yn Gymraeg yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. O ran contractau perthnasol (lle mae'r testun yn awgrymu y dylent fod yn Gymraeg) mae dogfennau tendro yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg. Mae'r ddogfen tendro yn nodi "Mae'r Comisiynydd yn croesawu ymatebion tendro yn Gymraeg" ac mae Rhestr Wirio'r Gymraeg wedi cael ei hymgorffori yn y broses dendro i sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei dalu i'r Gymraeg yn ystod pob cam. Mae mynediad at wasanaethau cyfieithu proffesiynol yn sicrhau bod cynnwys cyflwyniadau yn y Gymraeg yn cael ei adlewyrchu'n gywir, a bydd y broses werthuso'n rhedeg yn gyfochrog â'r broses werthuso ar gyfer cyflwyniadau yn Saesneg (os yn berthnasol). Bydd yr un dyddiad cau yn berthnasol i gyflwyniadau yn Gymraeg a Saesneg a bydd gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn cael eu cynnig a'u trefnu ar gyfer contractau perthnasol os bydd sefydliad yn dymuno cael cyfweiliad yn Gymraeg.

## DD) GWASANAETHAU DERBYNFA

Mae pob un o'n swyddogion ymholiadau mewn gorsafoedd heddlu a staff yn ein prif dderbynfa yn y pencadlys wedi derbyn hyfforddiant pwrpasol i'w galluogi nhw i ddarparu gwasanaeth derbynfa sylfaenol yn Gymraeg. Bydd y timau hyn yn parhau i dderbyn hyfforddiant diweddarau rheolaidd i sicrhau bod eu sgiliau'n cael eu cynnal.

# 10 CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU LLUNIO POLISI

## **Rydym wedi cydymffurfio â'n Safonau Llundio Polisi trwy ddiwygio'r broses a ddefnyddiwn i asesu'r effaith ar gydraddoldeb.**

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan orfodol o'n gweithdrefn llunio polisi ac maent yn arwain ein llunwyr polisi a'n pobl sy'n gwneud penderfyniadau drwy'r broses o ystyried effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig fel y diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Er nad yw'r Gymraeg yn Nodwedd Warchoddedig dan Adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi diwygio ein templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn awr i gynnwys nifer o gwestiynau sy'n golygu y bydd unrhyw effaith ar y ffordd rydym yn trin y Gymraeg mewn perthynas â'r Saesneg, neu gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn cael eu nodi.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn nodi sut mae'r awdur yn bwriadu lliniaru unrhyw effaith negyddol a nodir, ac unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Mae cymorth ar gael gan Swyddog Polisi'r Gymraeg i unrhyw gydweithiwr sy'n cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac fel gweithdrefn safonol ymgynghorir a Swyddog Polisi'r Gymraeg ynghylch pob polisi newydd a diwygiedig.

# II CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU GWEITHREDOL

## A) CYMORTH I STAFF

Cyhoeddir canllawiau Safonau'r Gymraeg cynhwysfawr i staff ar fewnwyd Heddlu Gwent "Y Bît/The Beat" ar y dudalen "Cymraeg". Mae'r dudalen yn cynnwys cymorth ac adnoddau i staff sydd am ymarfer eu Cymraeg neu'n ystyried addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant hefyd.

Darperir templedi Cymraeg ar gyfer ymatebion allan o'r swyddfa a llofnodion personol, ynghyd â bathodynau rhithwir y gall personél eu hychwanegu at eu negeseuon e-bost i ddangos eu bod naill ai'n dysgu neu'n siarad Cymraeg. Mae pob siaradwr Cymraeg hysbys ar draws y Llu wedi cael bathodyn neu laniard priodol i'w wisgo.

## C) ARWYDDION

Mae pob arwydd newydd neu arwydd sy'n cael ei gyfnewid yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog yn awr gyda'r Gymraeg mewn safle lle y mae'n debygol o gael ei darllen gyntaf.

## B) SGILIAU CYMRAEG Y GWEITHLU LANGUAGE SKILLS

Mae gwaith wedi dechrau i adolygu pob swydd er mwyn asesu pa rai ohonynt sydd angen sgiliau yn y Gymraeg. Bydd gwybodaeth bellach ar ganfyddiadau'r adolygiad hwn yn cael ei chyhoeddi yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.

Yn allanol, caiff swyddi eu hysbysebu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg a chyhoeddir fersiynau Cymraeg o wybodaeth yn ymwneud â'r swydd honno, yn ogystal â ffurflenni cais. Mae pob cais am swydd newydd yn gofyn i ymgeiswyr nodi lefel eu gallu yn y Gymraeg, a ble y bo angen, a hoffent gwblhau'r broses recriwtio yn Gymraeg

## 12 HERIAU

**O 31/03/19 ymlaen, mae pob llu yng Nghymru wedi cyflwyno her i Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Safonau 26A a 27A sy'n gofyn am gyfieithu ar y pryd mewn cyfweiliad.**

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg a'r tîm i benderfynu ar ddatrysiad sy'n bodloni angen gweithredol yn ogystal â sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg.

Ar hyn o bryd rydym yn aros am benderfyniad terfynol y Comisiynydd ar orfodaeth y Safonau hyn.

# 13 CYSYLLTU Â NI

Am wybodaeth bellach ynglŷn â sut mae Heddlu Gwent yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, neu i roi adborth ar sut gall Heddlu Gwent ymgysylltu'n fwy effeithiol â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn y cymunedau mae'n eu gwasanaethu, cysylltwch â Swyddog Polisi'r Gymraeg y llw, Cath Baldwin:

- [Catherine.Baldwin@gwent.pnn.police.uk](mailto:Catherine.Baldwin@gwent.pnn.police.uk)
- 01633 247951
- @gwentpolice
- [www.facebook.com/gwentpolice/facebook/](http://www.facebook.com/gwentpolice/facebook/)

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg - byddwn yn ymateb yn gyfartal i geisiadau yn y ddwy iaith a byddwn yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi.